Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 28 Medi 2017 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | S E Crouch | N J Davies |
| C R Doyle | M Durke | V M Evans |
| C R Evans | W Evans | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | K M Griffiths | J A Hale |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | B Hopkins | O G James |
| L James | Y V Jardine | M H Jones |
| S M Jones | P Jones | L R Jones |
| J W Jones | E J King | E T Kirchner |
| M A Langstone | M B Lewis | R D Lewis |
| W G Lewis | A S Lewis | C E Lloyd |
| I E Mann | P M Matthews | P N May |
| H M Morris | C L Philpott | S Pritchard |
| A Pugh | J A Raynor | K M Roberts |
| B J Rowlands | M Sherwood | R V Smith |
| R C Stewart | D G Sullivan | M Sykes |
| L G Thomas | W G Thomas | M Thomas |
| G D Walker | L V Walton | T M White |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, A M Day, R Francis-Davies, S J Gallagher, D H Hopkins, P Lloyd, D Phillips, C Richards, P B Smith, A H Stevens, G J Tanner a/ac L J Tyler-Lloyd

---

## 70. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y cynghorwyr M C Child, L S Gibbard, J W Jones, R D Lewis, C L Philpott ac R V Smith fudd personol yng Nghofnod 79, "Datganiad o Gyfrifon";

2) Datganodd Phil Roberts (Prif Weithredwr) fudd personol a rhagfarnol yng Nghofnod 85 “Diwygio Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru (Cwestiynau 38-40) – Ymateb i'r Ymgynghoriad”.

**71. Cofnodion.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Awst 2017;

2) Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Awst 2017.

**72. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredin diwethaf y cyngor.

**73. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.**

**1) Cydymdeimladau - Y Cyn-gynghorydd a'r Henadur Anrhydeddus Gordon Dennis**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-gynghorydd a'r Henadur Anrhydeddus Gordon Dennis. Bu Gordon Dennis yn cynrychioli Ward Etholiadol Llwchwr Uchaf ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw gynt.

Bu'n gwasanaethu ar Gyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw o 6 Mai 1987 i 31 Mawrth 1996 a Chyngor Dinas a Sir Abertawe o 4 Mai 1995 i 5 Mai 1999. Bu'n Faer Dyffryn Lliw 1994-1995 a rhoddwyd y teitl Henadur Anrhydeddus iddo ar 30 Mawrth 2000.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**2) Abertawe - Cais am Statws Dinas Diwylliant y DU 2021**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol y byddai nifer o gynghorwyr ac arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn cyrraedd cyfarfod y cyngor ychydig yn hwyr, gan eu bod yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau i ddangos cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer cyflwyno cais electronig Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y DU 2021 i'r Adran Faterion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn Llundain.

Dywedodd y gallai cynghorwyr hefyd chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r ymgyrch a lledaenu'r neges ar draws y ddinas a'r sir drwy fynd â nifer o sticeri ffenestr finyl a gofyn i fusnesau lleol eu harddangos fel rhan o ymgyrch Abertawe, Cefnogi'r Cais.

Mae holl leoliadau'r cyngor eisoes wedi'u cynnwys megis llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, adeiladau cymunedol, etc.

**3) Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus – Gwobrau Gwasanaeth Blynyddol 2017 – Tîm Gwasanaeth Gorau'r Flwyddyn – Gwasanaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Chris Howell a'i dîm am ennill gwobr y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer Gwasanaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu. Roedd y gwaith hynod flaengar a llwyddiannus i drawsnewid canolfannau ailgylchu'r cyngor wedi sicrhau'r wobr.

Yn hytrach na'u cau, penderfynodd y tîm drawsnewid y 3 safle llai a oedd yn perfformio'n wael yn ganolfannau ailgylchu ac ailddefnyddio'n unig, a gwahardd deunyddiau ailgylchadwy o'r sgipiau ar gyfer gweddillion ar safleoedd Llansamlet a Chlun. Mae hyn wedi arwain at leihau gwastraff gweddilliol a fyddai wedi mynd i safleoedd tirlenwi dros 80%, a chynyddu cyfradd ailgylchu gyfunol y safleoedd o 55% i oddeutu 90%.

Roedd Chris Howell yn bresennol i dderbyn y wobr.

**4) Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus – Gwobrau Gwasanaeth Blynyddol 2017 – Tîm Gwasanaeth Gorau'r Flwyddyn – Gwasanaeth Priffyrdd, Cynnal a Chadw dros y Gaeaf a Goleuadau Stryd**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Stuart Davies a'i dîm am ennill gwobr Tîm Gwasanaeth y Flwyddyn y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer Gwasanaeth Priffyrdd, Cynnal a Chadw dros y Gaeaf a Goleuadau Stryd. Aeth y wobr i'r Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant gyda ffocws penodol ar PATCH a'r fenter i drwsio tyllau yn y ffordd, yn ogystal â rhai o'r gwelliannau i oleuadau stryd.

Roedd ystadegau swyddogol yn dangos bod gan Gyngor Abertawe un o'r rhwydweithiau ffyrdd a gynhelir orau yng Nghymru, ond roedd ganddo enw gwael ymhlith preswylwyr am dyllau yn y ffordd. Roeddent o'r farn fod adroddiadau'n cael eu hanwybyddu ac nid oedd y tyllau'n cael eu trwsio'n ddigon cyflym. Roedd newid canfyddiad y cyhoedd am y Gwasanaeth Priffyrdd yn canolbwyntio ar newid teimladau. Drwy rym y cyfryngau cymdeithasol, roedd y cyhoedd wedi cyfleu neges glir nad oeddent yn hapus a'r nod oedd trawsnewid hyn yn adborth cadarnhaol yn y dyfodol.

Ateb y Tîm Priffyrdd oedd mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r canfyddiad drwy ddefnyddio dull hwylus o adrodd a fyddai'n gwarantu atgyweiriad o fewn 48 awr ac ymateb gyda ffotograffau i bob hysbysiad lle darparwyd e-bost.

Roedd y ffocws ar wybodaeth, gwneud cysylltiadau'n hwylus a rhoi ymatebion da, gan ymateb fel gwasanaeth i gwsmeriaid yn hytrach na cheidwad ased cyhoeddus.

Ers lansio'r ymgyrch i atgyweirio tyllau yn y ffordd o fewn 48 awr yr haf diwethaf, mae dros 3,000 o dyllau yn y ffordd wedi cael eu hatgyweirio o fewn deuddydd o roi gwybod amdanynt (gyda 93% o gwsmeriaid yn cael eu bodloni). Ac mae'r ymrwymiad i'r addewid wedi helpu i gynyddu cyfanswm yr atgyweiriadau ffyrdd i dros 11,200 dros y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd Bob Fenwick yn bresennol i dderbyn y wobr.

**5) Gwobrau Menter y Frenhines**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Gwobrau Menter y Frenhines yn wobrau o fri a roddir i gwmnïau neu unigolion sy'n rhagorol yn eu maes yn y DU. Rhennir y gwobrau ar draws pedwar categori, sef: Arloesedd, Masnach Ryngwladol, Datblygu Cynaliadwy a Hyrwyddo Cyfleoedd drwy Symudedd Cymdeithasol.

Cynllun Prentisiaethau Rhanbarthol a Rennir sydd wedi ennill sawl gwobr yn y diwydiant adeiladu ac ar draws de-orllewin Cymru yw Cyfle Building Skills.

Mae'r fenter, a gefnogir gan Fwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid amrywiol, yn gweithredu o fewn ffiniau rhanbarthol pum awdurdod lleol, sef Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro a Chastell-nedd, sy'n ei gefnogi.

Llongyfarchodd Wasanaethau Adeiladu Corfforaethol yr awdurdod, sy'n aelod sefydlu’r fenter Cyfle, am gael eu cydnabod am eu cyfraniad gweithredol a pharhaus, ar lawr gwlad ac ar lefel bwrdd, gyda gwobr y bowlen goffaol.

Roedd Chris Cutforth yn bresennol i dderbyn y wobr.

## 74. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Martin Nicholls – Cyfarwyddwr Corfforaethol Lleoedd**

Llongyfarchodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor Martin Nicholls am gael ei benodi'n gynharach y diwrnod hwnnw'n Gyfarwyddwr Corfforaethol Lleoedd.

**2) Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus a Gwobrau'r Frenhines**

Adleisiodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor y llongyfarchiadau a roddwyd eisoes gan yr Aelod Llywyddol am y gwobrau a enillwyd, gan dalu teyrnged i holl swyddogion y cyngor am eu hymroddiad a'u cefnogaeth.

**3) Abertawe – Cais am Statws Dinas Diwylliant y DU**

Llongyfarchodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor yr holl swyddogion sydd wedi cynorthwyo'r broses o baratoi cais Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y DU. Ymagwedd Tîm Abertawe oedd hi ac roedd yn bleser nodi bod cefnogaeth drawsbleidiol unfrydol i'r cais.

**4) Morlyn Llanw Bae Abertawe**

Dywedodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor nad oedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno unrhyw newyddion o hyd ynghylch cymeradwyo Morlyn Llanw Bae Abertawe; fodd bynnag, roedd yn braf nodi y bu sylwadau cadarnhaol amdano yng nghynadleddau diweddar y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Hefyd, plediodd Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr gefnogaeth lawn ei grŵp i'r prosiect a nododd y byddai'n codi'r mater gyda'r Prif Weinidog ar y penwythnos.

## 75. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

## 76. Cyflwyniad Cyhoeddus - Dim.

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

## 77. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Adroddiad Archwiliad Datganiadau Ariannol Dinas a Sir Abertawe.

Cyflwynodd Geraint Norman a David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), "Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2016-2017 ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, gan Swyddfa Archwilio Cymru".

Ymatebodd Geraint Norman (SAC) i gwestiynau technegol ac ymatebodd Ben Smith (Swyddog Adran 151) i gwestiynau am sefyllfa Dinas a Sir Abertawe.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo a llofnodi'r llythyr sylwadau terfynol;

2) Cymeradwyo'r datganiad.

**Sylwer:** Cyfeiriodd y Cynghorydd P M Black at dudalen 26 gwŷs y cyngor a gofynnodd y canlynol:

*"Mae Atodiad 4 yn datgan bod y cyngor yn dal y gweithredoedd ar gyfer nifer o asedau, ond nid yw'r rhain wedi'u cofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir hyd yn hyn. Faint o dir yr awdurdod sydd heb ei gofrestru?"*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**78. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Adroddiad Archwiliad Datganiadau Ariannol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.**

Cyflwynodd Geraint Norman and David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), "Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2016-2017 ar gyfer Cronfa Pensiwn Dinas a Sir Abertawe, gan Swyddfa Archwilio Cymru".

Ymatebodd Geraint Norman (SAC) i gwestiynau technegol ac ymatebodd Ben Smith (Swyddog Adran 151) i gwestiynau am sefyllfa Dinas a Sir Abertawe.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo a llofnodi'r llythyr sylwadau terfynol;

2) Cymeradwyo'r datganiad.

**79. Datganiad o Gyfrifon 2016/17.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a amlinellodd yr amserlen berthnasol i gwblhau ac archwilio Datganiad o Gyfrifon y cyngor ar gyfer 2016-2017. Yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, dywedodd y byddai'n rhaid i'r cyngor gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2016-2017 erbyn 30 Medi 2017.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2016-2017.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd P M Black y cwestiynau canlynol:

*1) "Mae tudalen 139 Datganiad o Gyfrifon 2016-2017 yn cyfeirio at ffioedd cartrefi gofal. A all y Swyddog Adran 151 esbonio'r mater a'r costau sy'n gysylltiedig ag ef?*

*2) Mae tudalen 140 Datganiad o Gyfrifon 2016-2017 yn cyfeirio at Bay Leisure Limited (Abertawe). A yw swm y gronfa'n ddigonol i dalu am unrhyw broblemau gyda'r gyllideb cynnal a chadw?"*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**80. Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2016/17.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad gwybodaeth a amlinellodd weithgareddau rheoli Trysorfa'r cyngor yn ystod 2016-2017 ac a gymharodd y perfformiad go iawn yn erbyn y strategaeth a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

**81. Y Can Niwrnod Cyntaf a Thu Hwnt.**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad er gwybodaeth a oedd yn cofnodi cyflawniadau a llwyddiannau Cyngor Abertawe yn ystod ei 100 niwrnod cyntaf ar ôl yr etholiad ar 4 Mai 2017 ac a oedd yn manylu ar y cynigion ar gyfer gweithredu dros y misoedd nesaf a'r tu hwnt.

## 82. Penodi Aelod/Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn amlinellu argymhelliad Panel Swyddi Gwag y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 4 Medi 2017. Yr argymhelliad oedd penodi Michaela Jones a Mike Lewis yn aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau o 1 Hydref 2017.

**PENDERFYNWYD:**

1) Bod y cyngor yn nodi argymhelliad Panel Swyddi Gwag y Pwyllgor Safonau ar 4 Medi 2017;

2) Penodi Michaela Jones a Mike Lewis yn aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau o 1 Hydref 2017;

3) Y bydd eu cyfnod 6 mlynedd yn eu swyddi'n dod i ben ar 30 Medi 2023.

## 83. Aelodaeth Pwyllgorau.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Gweithrediadau Busnes fod un newid ychwanegol i'r adroddiad.

Cyfeiriodd at yr adroddiad gan nodi bod Arweinydd y Cyngor hefyd wedi gwneud y newidiadau canlynol i gyrff allanol yr awdurdod:

**1) Llys Prifysgol Cymru**
Tynnu enw'r Cynghorydd R Francis-Davies.

Dywedodd hefyd fod Arweinydd y Cyngor wedi cyhoeddi'n flaenorol y bydd y Cynghorwyr J E Burtonshaw ac M Sherwood yn rhannu rôl Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol ar sail chwarterol. Y Cynghorydd J E Burtonshaw oedd Aelod y Cabinet tan 31 Awst 2017 ac mae'r Cynghorydd M Sherwood wedi ymgymryd â'r rôl am 3 mis, gan ddechrau ar 1 Medi 2017.

Nodir cyfnodau eu swyddi ar gyfer y Cabinet a'r Panel Ariannu Allanol isod:

| Cynghorydd | O | I |
|---|---|---|
| June Burtonshaw | 8 Mai 2017 | 31 Awst 2017 |
| Mary Sherwood | 1 Medi 2017 | 30 Tachwedd 2017 |
| June Burtonshaw | 1 Rhagfyr 2017 | 28 Chwefror 2018 |
| Mary Sherwood | 1 Mawrth 2018 | 31 Mai 2018 |

**PENDERFYNWYD:**

**1)** Y dylid nodi'r adroddiad;

**2)** Diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**i) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi ar yr Economi ac Isadeiledd**
Tynnu enw'r Cynghorydd W G Thomas.

Ychwanegu enw'r Cynghorydd M A Langstone.

**ii) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Addysg a Sgiliau**
Ychwanegu enw'r Cynghorydd M H Jones.

**iii) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Diogelu**
Tynnu enw'r Cynghorydd M Sykes.
Ychwanegu enw'r M B Lewis.

## 84. Diwygio Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru (Cwestiynau 1-37 a 41-46) - Ymateb i'r Ymgynghoriad.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad diwygiedig a ddarparodd ymateb i gwestiynau 1-37 a 41-46 ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru erbyn 10 Hydref 2017. Darparodd yr adroddiad diwygiedig ymateb trawsbleidiol cytunedig i 31 o'r 46 o gwestiynau.

**PENDERFYNWYD**:

1) Cyflwyno ymateb i Ddiwygio Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru fel a amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad diwygiedig.

## 85. Diwygio Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru (Cwestiynau 38-40) - Ymateb i'r Ymgynghoriad.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a ddarparodd ymateb i gwestiynau 38-40 ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru erbyn 10 Hydref 2017.

**PENDERFYNWYD**:

1) Cyflwyno ymateb i Ddiwygio Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru fel a amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

## 86. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

**1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A**

Cyflwynwyd naw (9) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Roedd ymateb ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer y cwestiwn/cwestiynau atodol canlynol.

**Cwestiwn 5**

**a)** Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley y canlynol:

*i)* *“Beth mae ymgynghorwyr yr awdurdod yn ei ddweud ynghylch manwerthu gwell a chanol y ddinas?”*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**Cwestiwn 7**

**b)** Gofynnodd y Cynghorydd P M Black y canlynol:

*ii)* *"A all Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ddarparu dadansoddiad manwl o geisiadau Blwyddyn 10 ar gyfer yr holl bynciau a restrir yn y broses holi ac ateb?"*

Datganodd Aelod Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes y darperir ymateb ysgrifenedig.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd dau (2) 'gwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.31 pm

**Cadeirydd**